PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY 1872

# Cais i Symud Llety

Cyn llenwi'r ffurflen hon, gofalwch eich bod yn darllen y nodiadau cysylltiedig.
Cwblhewch bob darn o'r ffurflen ac yna dychwelwch i'r Swyddfa Llety.

## 1. Manylion Personol

Cyfenw (Enw Teuluol): ______________________________

Enw a Elwir : ______________________________

Dyddiad Geni (Dyddiad, Mis, Blwyddyn): ________/________/ ________

Rhif Cyfeirnod Myfyriwr:
(dangosir ar eich cerdyn Aber)

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | |

Rhif Ffôn Symudol: ______________________________

Cyfeiriad E-bost Aber: ______________________________

## 2. Manylion Y Cwrs

Blwyddyn y Cwrs: ☐ 1af ☐ 2il ☐ 3ydd ☐ 4ydd ☐ Arall

Rwy'n fyfyriwr: ☐ Israddedig ☐ Uwchraddedig ☐ Cyfnewid / Erasmus

## 3. Manylion Eich Ystafell Ar Hyn o Bryd

Enw'r Llety Presennol: ______________________________

Bloc: ______________ Fflat: ______________ Ystafell: __________

## 4. Cais i Symud Llety

Llety yr hoffech symud iddo yn ôl trefn blaenoriaeth:

1. ______________________________
2. ______________________________
3. ______________________________

Mewn 5 gair pam ydych am drosglwyddo? ______________________________

Rhesymau dros fod eisiau symud Llety:
(Atodwch unrhyw ddogfennau priodol)

☐ Rwyf wedi darllen, deall a cytuno ar nodiadau ar gyfer myfyrwyr sy'n dymuno trosglwyddo llety.

Llofnodwyd gan y Myfyriwr: ______________________________

Dyddiad: ______________________________

## At ddefnydd y swyddfa'n unig:

| | |
|---|---|
| Dyddiad /amser a gyflwynwyd: | Enw Rheolwr : |
| Wedi ei gofnodi ar AStRA: ☐ | Dyddiad Cyrarfod : |
| Anfonwyd ebost cadarnhau : ☐ | Argymhellion : |
| Anfonir at Rhelowr : Y/N | |
| Llofnod: | |

23471

# Nodiadau i fyfyrwyr sydd eisiau symud llety

Nid yw llenwi'r ffurflen symud yn gwarantu y byddwch chi'n symud llety, ac mae'n rhaid i bob cais gael ei ystyried i ddechrau gan y Swyddfa Llety. Yna bydd symud llety yn amodol ar y ffaith bod lleoedd addas gwag ar gael yn y llety a ddewiswyd gennych. Felly, nid oes unrhyw raddfeydd amser ar ba mor hir y gallai eich trosglwyddiad ei gymryd.

Mae'r holl ddata sydd yn cael ei chasglu, cofnodi, ddefnyddio a'i rhannu gang ân yr adran Ystadau, Cyfleusterau a Phreswylfeydd, yn cael ei wneud gan ddilyn y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a'r Ddeddf Diogelu Data 2018. Bydd y wybodaeth a ddarperir gennych yma yn cael ei defnyddio ar gyfer gweithdrefnau sy'n ymwneud â'ch Cais yn unig. Am ragor o wybodaeth ewch i - https://www.aber.ac.uk/cy/accommodation/about-us/data-protection-information/

1. Mae'n rhaid i bob myfyriwr a hoffai gael eu hystyried ar gyfer symud i lety arall neu symud o fewn eu llety presennol gael caniatâd gan y Swyddfa Llety. Gall y Swyddfa Llety roi gwybodaeth i chi am gysylltu â'r Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr os hoffech drafod unrhyw faterion bugeiliol neu les â hwy cyn llenwi'r ffurflen 'Cais i Symud Llety'.
2. Rhaid i'r ffurflen Cais i Symud Llety gael ei chasglu a'i dychwelyd i'r Swyddfa Llety yn bersonol.
3. Gofynnwn i chi atodi unrhyw ddogfennau ategol h.y. llythyr gan ddoctor, tiwtor personol, ac yn y blaen, i'r Ffurflen Cais i Symud Llety.
4. Bydd y Swyddfa Llety yn cadarnhau bod y Ffurflen Cais i Symud Llety wedi dod i law trwy lofnodi a dyddio'r ffurflen cyn gynted ag y byddant yn ei chael.
5. Yn dibynnu ar y rheswm dros y trosglwyddiad, gellir cyfeirio eich cais at y tîm rheoli a fydd yn cysylltu â chi i drafod eich cais.
6. Os oes lle addas ar gael, bydd y Swyddfa Llety yn cysylltu â chi drwy e-bost. **Gofynnwn i chi edrych ar eich negeseuon e-bost Aber yn rheolaidd**.
7. **Os ydych chi'n symud i lety newydd**:
   - Cyn gynted ag y byddwch yn derbyn e-bost gan y Swyddfa Llety yn cynnig ystafell arall i chi, mae gennych 48 awr i dderbyn y cynnig hwn. Bydd methiant i gadarnhau'r cynnig o fewn yr amser, yn golygu bod y Swyddfa Llety yn tynnu'r cynnig trosglwyddo yn ôl ac ni fyddwch yn cael eich ystyried am drosglwyddiad mwyach. Os ydych chi'n dal i fod eisiau trosglwyddo llety bydd angen i chi ail-ymgeisio.
   - Unwaith y byddwch wedi cwblhau eich Pecyn Trwydded Llety newydd gallwch symud trwy ymweld â'r Swyddfa Llety i nôl allwedd eich ystafell. Nodwch mai dim ond o Ddydd Llun i Ddydd Iau rhwng 8.30yb a 5.00yp a dyff Gwener 8.30yb – 4.30yp y cewch symud.
   - Gall ffioedd llety newid yn ddibynnol ar y math o lety rydych yn trosglwyddo iddo. Bydd y Swyddfa Ffioedd Myfyrwyr yn cael ei hysbysu'n awtomatig ac yn gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i'ch cynllun talu. Cyfeiriwch at ein dudalen we ar ffioedd llety - https://www.aber.ac.uk/cy/accommodation/fees/
8. **Os ydych chi'n symud i ystafell wahanol, ond yn yr un llety**:
   - Nid oes raid i chi gwblhau Pecyn Trwydded Llety newydd oherwydd bod telerau ac amodau eich trwydded flaenorol yn dal i fod yn berthnasol. Gallwch weld eich pecyn trwydded trwy fewngofnodi i'r Porth Llety – https://accommodation.aber.ac.uk/cy/
   - Cyn gynted ag y byddwch yn derbyn e-bost gan y Swyddfa Llety yn cynnig ystafell arall i chi, mae gennych 48 awr i dderbyn y cynnig hwn. Bydd methiant i gadarnhau'r cynnig o fewn yr amser, yn golygu bod y Swyddfa Llety yn tynnu'r cynnig trosglwyddo yn ôl ac ni fyddwch yn cael eich ystyried am drosglwyddiad mwyach. Os ydych chi'n dal i fod eisiau trosglwyddo llety bydd angen i chi ail-ymgeisio.
9. Pan fyddwch yn gadael eich ystafell mae'n rhaid i chi lanhau'r ystafell i safon foddhaol neu efallai y bydd rhaid i chi dalu costau glanhau ychwanegol. Byddwn yn cynnal archwiliad i sicrhau bod yr ystafell yr ydych yn symud allan ohoni yn lân ac nad ydy hi wedi cael ei difrodi mewn unrhyw ffordd. Os bydd rhaid i chi dalu costau difrod/glanhau byddwch yn cael anfoneb am y cyfanswm neu bydd y costau yn cael eu tynnu o'ch

ernes.

10. Os nad ydych yn dychwelyd yr allwedd ar gyfer eich hen ystafell erbyn 5.30yp ar y diwrnod y byddwch yn symud, bydd rhaid ichi dalu'r gyfradd nosweithiol ar gyfer y ddwy ystafell. Edrychwch ar yr Hysbysiad Ffioedd Llety am fanylion pellach – https://www.aber.ac.uk/cy/accommodation/fees/
11. Os nad ydych yn dychwelyd allwedd eich hen ystafell bydd rhaid talu £30 am bob allwedd.
12. Os nad ydych chi bellach eisiau symud, rhowch wybod i'r Swyddfa Llety.